| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| DYDDIAD: | **22 Mai, 2025** |
| PWRPAS: | **CYFLWYNO CANFYDDIADAU ARCHWILIAD Y COMISIYNYDD GWYBODAETH (ICO) I DREFNIADAU'R CYNGOR O RAN YMATEB I GEISIADAU A WNEIR O DAN Y DDEDDF RHYDDID GWYBODAETH (2000) A RHEOLIADAU GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL** |
| GWEITHREDIAD: | **Diweddaru Aelodau'r Pwyllgor ar lefel sicrwydd Swyddfa y Comisiynydd Gwybodaeth ar drefniadau'r Cyngor** |
| AELOD CABINET | **Y Cyng. Llio Elenid Owen** |
| SWYDDOG CYSWLLT | **Ian Jones, Pennaeth Adran Gwasanaethau Corfforaethol** |

**1. Cyflwyniad a Chefndir**

Yn sgil pryder a fynegwyd o ran perfformiad y Cyngor o ran y cyfradd ymateb i geisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf uchod, comisiynwyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i gynnal archwiliad i drefniadau'r Cyngor.

Roedd hyn yn weithred gwirfoddol ar ran y Cyngor er mwyn darganfod os oedd diffygion yn ei drefniadau a bod y rhain yn arwain at oedi neu ddiffyg cydymffurfiaeth gyda gofynion y Ddeddf. Nid yw Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cynnal rhaglen o archwiliadau ond yn hytrach yn eu cynnal ar gais neu mewn ymateb i bryder am sefydliad sydd o fewn sgôp y Ddeddf.

Cynhaliwyd yr archwiliad yn ystod mis Ebrill, 2025 a cyhoeddwyd yr adroddiad drafft ar y canlyniadau ar 1 Mai, 2025

**2. Prif Ddarganfyddiadau**

Barn yr Archwiliwr yw fod gan y Cyngor drefniadau **RHESYMOL** o ran ymateb i ofynion y Ddeddf. Nodwyd bod '*lefel resymol o sicrwydd bod prosesau a gweithdrefnau ar waith ac yn sicrhau cydymffurfiad â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (FOI). Mae'r archwiliad wedi nodi rhywfaint o gyfle i wella'r trefniadau presennol i leihau'r risg o beidio â chydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (FOIA)*'.

**3. Materion Allweddol i'r Gwella**

Adnabuwyd bod angen gwella rhai agweddau o drefniadau'r Cyngor megis:

- Rhaid i'r Cyngor sicrhau eu bod yn parhau i wella eu perfformiad er mwyn cydymffurfio â'r terfynau amser statudol ar gyfer ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth.
- Dylai'r Cyngor gyflwyno hyfforddiant mandadol i'r holl staff ar draws y Cyngor, a gaiff ei adnewyddu'n gyfnodol.
- Dylai'r hyfforddiant fod yn ddigon manwl fel bod gan staff ddealltwriaeth glir o sut mae'r Ddeddf yn berthnasol i'r Cyngor a sut i adnabod cais a wneir o dan y Ddeddf.
- Dylid darparu hyfforddiant arbenigol i'r holl staff sydd â chyfrifoldeb dros drin ceisiadau.

- I gael sicrwydd ynghylch ansawdd yr ymatebion sy'n cael eu hanfon allan, dylai'r Cyngor gynnal ymarferion 'samplu dip' ansawdd annibynnol ffurfiol ar geisiadau a gwblhawyd.
- I gyfrannu at sicrhau cysondeb, dylid cyflwyno canllawiau i gefnogi staff i ddelio'n gywir â cheisiadau hybrid sy'n cyfuno ceisiadau gyda Chais Mynediad at Ddata (SAR).

**4. Meysydd allweddol o sicrwydd**

Ar adeg yr archwiliad, ac yn seiliedig ar y dystiolaeth a welwyd gan archwilwyr y Comisiynydd, roedd mesurau ar waith ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol i gyflawni'r amcanion rheoli yn y meysydd allweddol canlynol:

- Mae'r tîm Llywodraethu Gwybodaeth y Cyngor yn darparu cyngor ac arweiniad yn rheolaidd ar faterion Rhyddid Gwybodaeth i staff ar draws y Cyngor. Pan fo angen cymorth gydag ymateb i geisiadau byddant yn aml yn cynnal cyfarfodydd i drafod unrhyw bryderon.
- Mae canllawiau ar gael ar wefan y Cyngor i gynorthwyo unigolion i wneud cais am wybodaeth o dan y Ddeddf.
- Mae'r Cyngor yn cynnal cofnod dogfennol o'r ceisiadau a dderbynnir a'r ffordd maent yn cael eu trin. Mae hyn yn eu galluogi i fonitro statws y cais o'r derbyniad hyd at ei gwblhau.
- Mae gan y Cyngor nifer o dempledi ymateb i geisiadau ar waith i sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir wrth ymateb i geisiadau yn bodloni gofynion statudol.

Mae copi llawn o'r adroddiad i'w gweld yn Atodiad 1.

**5. Rhaglen Waith a Camau Nesaf**

Yn sgil derbyn yr adroddiad, mae bwriad llunio rhaglen waith manwl er mwyn mynd i'r afael a'r argymhellion cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib. Cyn hynny bwriedir:

- Cyflwyno'r adroddiad i'r Bwrdd Rhaglen Ymateb i Droseddau – 19 Mai, 2025
- Cyflwyno'r adroddiad i gyfarfod o Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor – Mai, 2025
- Cyflwyno'r adroddiad i gyfarfod o Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y Cyngor – 22 Mai, 2025
- Cyflwyno'r adroddiad i gyfarfod o Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor (Penaethiaid Adran) – 4 Mehefin, 2025
- Ymateb i'r Adroddiad yn ffurfiol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – cyn diwedd Mehefin, 2025
- Cyflwyno Rhaglen Waith Manwl i Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth y Cyngor – Gorffennaf, 2025
- Cyflwyno'r Rhaglen Waith Manwl i gyfarfod o'r Bwrdd Rhaglen Ymateb – Medi, 2025
- Diweddaru'r Bwrdd Rhaglen Ymateb ar gynnydd y cynllun gweithredu a phob pwyllgor arall perthnasol yn ôl yr angen.

**6. Argymhelliad**

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys adroddiad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a chynnig unrhyw sylwadau.